# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 23 Medi 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Hugh Irving, Barry Mellor (Is-Gadeirydd), Win Mullen-James, Pete Prendergast, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Swyddog Gorfodi Trwyddedu (HB), Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol (TWE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## PWYNT O SYLW

Cytunodd y Cadeirydd i amrywio trefn y rhaglen i ddarparu ar gyfer swyddogion ac unigolion sy'n mynychu ar gyfer eitemau penodol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Richard Davies a Huw Williams

Byddai'r Cynghorydd Pete Prendergast yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2015.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2015 fel cofnod cywir.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD** - dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym*

*Mharagraff 12, o Ran 4, Atodlen 12A o’r Ddeddf.*

## 5 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 14/0859/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 14/0859/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn croniad o 37 pwynt cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor, am barcio cerbyd trwyddedig wrth dorri rheoliadau parcio, gyrru cerbyd heb ei drwyddedu a gyrru'r cerbyd gyda dau deiar diffygiol;

(ii) mae manylion am y digwyddiadau’n rhychwantu Mai - Gorffennaf 2015 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad (crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig a dogfennaeth ynghlwm wrth yr adroddiad), a

(iii) gwahoddwyd y Gyrrwr i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei adolygiad o’i drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi’r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos. Mewn achosion pan fo 20 neu fwy o bwyntiau cosb wedi eu cronni mewn cyfnod o 24 mis caiff y mater ei gyfeirio at y Pwyllgor i’w adolygu.

Cyflwynodd y Gyrrwr ei achos ac eglurodd nad oedd wedi ceisio’n fwriadol i dwyllo ond wedi esgeuluso’r ffaith bod trwydded ei gerbyd wedi dod i ben ac nid oedd modd gweld diffygion y teiars yn glir am eu bod wedi gwisgo ar y tu mewn. O ran y tocyn parcio eglurodd ei fod wedi aros yn hwyrach na’r amser a ganiatawyd. Cyfeiriodd at ei gofnod di-fai blaenorol ac ymddiheurodd am ei gamymddygiad. Pan gafodd ei holi, dywedodd y Gyrrwr ei fod yn berchennog / gyrrwr y cerbyd trwyddedig ond yn gweithredu drwy gyfrwng cwmni tacsi. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, dywedodd y Gyrrwr mai gyrru tacsi oedd ei fywoliaeth ac ni allai fforddio atal neu ddiddymu’r drwydded hon.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD*** *diddymu trwydded yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gyrrwr rhif 14/0859/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth ofalus i’r dystiolaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed gan y Gyrrwr i gefnogi ei achos. Canfuwyd bod y Gyrrwr wedi methu cyflwyno'r cerbyd ar gyfer gwiriad cydymffurfio, wedi gyrru’r cerbyd rhyw dri mis ar ôl i’r drwydded ddod i ben ac felly heb yswiriant, a bod y cerbyd mewn cyflwr diffygiol a pheryglus pan gafodd ei archwilio. Cyfrannodd y ffactorau hyn at ganfyddiad y dylid diddymu’r drwydded ar unwaith er lles diogelwch y cyhoedd. O ganlyniad i ymddygiad y Gyrrwr, ystyriodd yr Aelodau iddo fod yn risg i ddiogelwch

y cyhoedd ac nid yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbydau hacni / cerbydau hurio preifat.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Gyrrwr a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon.

[Ni chymerodd y Cynghorydd Pete Prendergast unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater gan nad oedd wedi bod yn bresennol am yr eitem gyfan]

## 6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 14/0123/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 14/0123/TXJDR am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais o ystyried y collfarnau a ddatgelwyd yn ymwneud â thair trosedd rhwng 1989 a 2014;

(iii) yr Ymgeisydd wedi cael trwydded yn flaenorol ac wedi bod gerbron y Pwyllgor Trwyddedu ar achlysur ar wahân i ateb ar gyfer y gollfarn ddiweddaraf yn 2014 – roedd rhybudd terfynol wedi'i gyhoeddi ar yr achlysur hwnnw;

(iv) polisi cyfredol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(v) gwahoddwyd y Gyrrwr i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol ynghyd â'i gynrychiolydd a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) yr adroddiad ac eglurodd fod yr Ymgeisydd wedi bod gerbron y pwyllgor yn flaenorol ynghylch ei gollfarn fwyaf diweddar ac wedi'i ganfod i fod yn addas a phriodol i ddal trwydded. Fodd bynnag, oherwydd bod y drwydded wedi dod i ben, ac yn sgil y collfarnau, roedd y cais newydd angen cymeradwyaeth y pwyllgor.

Esboniodd cynrychiolydd y Gyrrwr fod aelodau eisoes wedi dyfarnu ar yr achos hwn ac wedi caniatáu i'r Gyrrwr gadw ei drwydded. Fe dystiodd hefyd i gymeriad da'r Gyrrwr a dywedodd ei fod yn aelod gwerthfawr o'r gweithlu. Derbyniodd y Gyrrwr gyfrifoldeb am ei fethiant i adnewyddu'r drwydded ac ymddiheurodd am yr esgeulustod. Yn ei ddatganiad lliniaru, nid oedd wedi cael nodyn atgoffa i adnewyddu gan yr awdurdod trwyddedu. Cadarnhaodd y swyddogion efallai y bu anghysondeb dros ohebiaeth, ond deiliad y drwydded oedd yn gyfrifol am sicrhau bod cyflwyniad amserol o gais adnewyddu. Wrth wneud datganiad terfynol siaradodd y Gyrrwr am ei ofid bod yn rhaid i'r mater gael ei ddwyn gerbron y pwyllgor a chadarnhaodd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi digwydd ers ei gollfarn yn 2014.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD*** *bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 14/0123/TXJDR yn cael ei roi.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Wrth ystyried y cais, roedd aelodau wedi cymryd i ystyriaeth ganfyddiad blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Nid oedd yr Aelodau ag unrhyw faterion ers hynny i newid y farn honno ac fe wnaethant benderfynu caniatáu'r cais ar y sail bod y rhybudd blaenorol a roddwyd i'r Ymgeisydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol yn aros. Cynghorwyd yr Ymgeisydd hefyd, waeth bynnag a oedd nodyn atgoffa i adnewyddu'n cael ei anfon ai peidio gan yr awdurdod trwyddedu, ei gyfrifoldeb ef oedd sicrhau adnewyddu ei drwydded yn amserol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

**7 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0896/TXJDR**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 15/0896/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn croniad o 9 pwynt cosb ar ei Drwydded Yrru DVLA;

(ii) manylion y collfarnau moduro a ddarparwyd yn rhychwantu cyfnod 2013 - 2015 yn cynnwys goryrru a thorri gofynion ynghylch rheoli'r cerbyd;

(iii) polisi cyfredol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(iv) gwahoddwyd y Gyrrwr i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei adolygiad o'i drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd y Gyrrwr ei bod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi'r (JT) adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

FFe wnaeth y Gyrrwr annerch y pwyllgor a derbyniodd gyfrifoldeb am y collfarnau moduro. Rhoddodd esboniad manwl o'r amgylchiadau o gwmpas pob trosedd foduro, mynegodd edifeirwch dros y digwyddiadau, a rhoddodd sicrwydd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol. Fe ymatebodd i gwestiynau aelodau ynglŷn â'i hanes gyrru ac eglurodd agweddau penodol ar y troseddau moduro. Pan roddwyd y cyfle i wneud datganiad terfynol, cadarnhaodd y Gyrrwr nad oedd ganddi unrhyw beth i'w ychwanegu.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD** bod y cais wedi'i adnewyddu am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan yrrwr rhif 15/0896/TXJDR yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a'r esboniad a roddwyd gan y Gyrrwr yn yr achos hwn. Roedd y pwyllgor o'r farn bod y Gyrrwr yn agored ac yn onest gyda'r esboniadau ac wrth ateb cwestiynau ac wedi cael sicrwydd o ran hymddygiad yn y dyfodol. O ganlyniad, ystyriodd yr aelodau bod y Gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded a chytunwyd i roi rhybudd ffurfiol yn yr achos hwn yn sgil y collfarnau moduro a dderbyniwyd.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**8 CYFLWYNIAD GAN Y GWASANAETHAU FFLYD AR DDIOGELWCH A THRWYDDEDU CERBYDAU**

Cyflwynodd y Rheolwr Cludiant (RhC) gyflwyniad PowerPoint ar ei rôl a'i gyfrifoldebau yn ogystal â'r Gwasanaethau Fflyd, cyn egluro'r perthnasedd i drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Er bod rhai gweithredwyr trwyddedig da yn Sir Ddinbych, roedd angen gwella'r ffordd roedd gweithredwyr yn rheoli ac yn cynnal eu cerbydau yn gyffredinol. O ganlyniad, argymhellodd y RhC fabwysiadu safon ofynnol ar gyfer gweithredwyr fel rhan o amodau polisi, gan ddefnyddio system goleuadau traffig yn debyg i'r system sgorio gweithredwyr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) neu'r system fwyd. Byddai system o'r fath yn galluogi gweithgareddau gorfodi i dargedu perfformwyr gwael.

Yn ystod trafodaeth fanwl, cododd yr aelodau gwestiynau gyda'r RhC ynghylch agweddau amrywiol ar reoli fflyd a'r dull a ddefnyddir gan Sir Ddinbych gyda'i gyfrifoldebau fflyd cludiant a rheoli eu hunain. Wrth ystyried materion yn ymwneud yn benodol â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, myfyriodd yr aelodau ynghylch mesurau a gyflwynwyd er mwyn codi safonau megis y system pwyntiau cosb. Croesawyd cynllun i ddarparu dull cyson ynghylch gosod safonau cerbydau gofynnol trwy reoli a chynnal cerbydau, i godi safonau tacsis a cherbydau hurio preifat a drwyddedir gan Sir Ddinbych ymhellach.

Canolbwyntiodd y prif faterion trafod ar y canlynol -

- a oedd gwrthdaro buddiannau mewn achosion lle'r oedd cwmnïau tacsi â'u garejis eu hunain ar gyfer profi MOT, ac yn yr un modd, ar gyfer y Cyngor wrth roi profion MOT ar ei gerbydau ei hun – roedd y RhC yn ffafrio'r Cyngor yn profi pob cerbyd trwyddedig i sicrhau dull cyson ond derbyniodd y gallai achosi anawsterau o ystyried maint y sir. Cafodd y drefn MOT ei gweinyddu'n

annibynnol gan arholwr DVSA ym mhob achos, ond plât trwydded cyngor Sir Ddinbych oedd ar y cerbyd a yn adlewyrchu ar yr awdurdod, ac roedd profion yn fwy goddrychol os ydynt yn cael eu gwneud mewn nifer o wahanol garejis

- roedd achosion a ddaeth gerbron y pwyllgor ynghylch safonau cerbydau gwael yn tueddu i ymwneud â pherchennog / gyrwyr gyda chwmnïau tacsis mwy o faint â rhyw fath o system cynnal a chadw ar waith; codwyd pryderon bod y cyfrifoldeb am gyflwr cerbydau trwyddedig yn parhau i fod gyda'r perchennog/gyrrwr yn unig, gyda chwmnïau tacsi'n is-gontractio gwaith gan eu rhyddhau o unrhyw gyfrifoldeb
- cefnogodd yr aelodau'r broses o herio gweithredwyr gwael a thynnwyd sylw at yr angen i addysgu perchnogion cerbydau am eu cyfrifoldebau i sicrhau bod cerbydau'n bodloni'r holl ofynion o ddydd i ddydd ac i beidio â defnyddio'r MOT fel prawf cynnal a chadw
- mynegwyd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer defnyddio cerbydau safonol a chynlluniau lliw fel modd o godi safonau a chytunodd swyddogion i edrych ymhellach i'r mater - awgrymwyd hefyd y gallai cerbydau arddangos arwydd sy'n darparu manylion am brofion er mwyn darparu sicrwydd i gwsmeriaid
- pwysleisiwyd yr angen am gerbydau trwyddedig o ansawdd uchel i sicrhau safonau cerbydau uchel a chyfleu delwedd broffesiynol o Sir Ddinbych. Eglurodd y RhC mai newidiadau i bolisi ac amodau a threfn orfodi effeithiol i dargedu gweithredwyr gwael fyddai'r ffordd orau o gyrraedd y nod hwnnw. Argymhellodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd ddull cydweithredol gyda'r Gwasanaethau Fflyd er mwyn gweithredu proses gadarn i wella safonau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cludiant am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r cyflwyniad a gafwyd gan y Gwasanaethau Fflyd.*

[Yn y fan hon o'r gweithrediadau, gadawodd y Cynghorydd Hugh Irving y cyfarfod].

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** *- dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, o Ran 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 14/0892/TXJDR**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 14/0892/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn cronni 20 o bwyntiau cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor am gyflwyno cerbyd trwyddedig i'w brofi mewn cyflwr anniogel a pheryglus;

(ii) roedd manylion y diffygion a nodwyd yn dilyn cyflwyno’r cerbyd am brawf Cydymffurfio/MOT wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â datganiadau tyst a dogfennau cysylltiedig, a

(iii) gwahoddwyd y Gyrrwr i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei adolygiad o’r drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Nid oedd y Gyrrwr yn bresennol ac roedd wedi methu cysylltu â swyddogion ynghylch ei adolygiad trwydded. Cadarnhaodd swyddogion fod yr hysbysiad angenrheidiol wedi'i anfon ac ar y sail honno roedd yr aelodau'n fodlon gwrando ar yr achos yn absenoldeb y Gyrrwr. Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi’r adroddiad a rhoddodd fanylion ar ffeithiau'r achos. Mewn achosion pan fo 20 neu fwy o bwyntiau cosb wedi eu cronni mewn cyfnod o 24 mis caiff y mater ei gyfeirio at y Pwyllgor i’w adolygu.

Ymatebodd y Swyddog Gorfodi i gwestiynau gan gadarnhau mai'r Gyrrwr oedd yn berchen ar y cerbyd dan sylw, ond yn gweithredu drwy gyfrwng cwmni tacsi. Cadarnhaodd fod gwiriad cydymffurfio chwe mis blaenorol y cerbyd wedi’i gynnal ac nid oedd gan y Gyrrwr unrhyw bwyntiau cosb blaenorol.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD*** *diddymu trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gyrrwr rhif 14/0892/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Yn ystod trafodaethau, ystyriodd yr aelodau’r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus. Mynegodd y pwyllgor bryderon difrifol ynghylch cyflwr anniogel y cerbyd trwyddedig fel y'u cyflwynwyd ar gyfer ei brofi, a’r peryglon a berir i'r cyhoedd o ganlyniad. Roedd aelodau wedi canfod bod cyflwr y cerbyd mor ddifrifol fel y byddai gyrrwr cyfrifol wedi gwybod bod yna broblem gyda'r cerbyd, a dylai fod wedi cymryd mesurau digonol i fynd i'r afael â hynny. Roedd y Gyrrwr wedi gweithredu’r cerbyd mewn cyflwr anniogel heb ystyriaeth briodol i ddiogelwch y cyhoedd ac yn absenoldeb unrhyw sylwadau gan y Gyrrwr, nid oedd modd cael unrhyw sicrwydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol. O ganlyniad, canfu'r pwyllgor nad oedd y Gyrrwr yn berson addas a phriodol a phenderfynodd ddiddymu'r drwydded am resymau diogelwch y cyhoedd.

## 10 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0123/TXPHD

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 15/0123/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hurio preifat yn dilyn cronni 20 o bwyntiau cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor am yrru cerbyd heb ei drwyddedu;

(ii) manylion a'r amgylchiadau yn gysylltiedig â'r drosedd (crynodeb o ffeithiau ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig a dogfennaeth ynghlwm wrth yr adroddiad), a

(iii) gwahoddwyd y Gyrrwr i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei adolygiad trwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol yr adroddiad a rhoddodd fanylion ar ffeithiau'r achos. Mewn achosion pan fo 20 neu fwy o bwyntiau cosb wedi eu cronni mewn cyfnod o 24 mis caiff y mater ei gyfeirio at y Pwyllgor i'w adolygu.

Roedd y Gyrrwr wedi cyflwyno llythyr lliniaru i'r pwyllgor (a gylchredwyd yn y cyfarfod) gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Eglurodd fod ei gweithredoedd wedi digwydd yn y fan a'r lle yn fyrfyfyr ac wedi'u gwneud gyda'r bwriadau gorau.

Eglurodd y swyddogion faterion penodol mewn ymateb i gwestiynau ar hynny, gan gynnwys gweithdrefnau priodol i'w dilyn mewn achosion o'r fath yn ymwneud â gwaith contract.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD** rhoi rhybudd ffurfiol i Yrrwr Rhif 15/0123/TXPHD ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ystyriodd yr Aelodau'r dystiolaeth a gyflwynwyd a'r llythyr lliniaru a roddwyd gan y Gyrrwr yn yr achos hwn. Roedd gan y pwyllgor farn ddifrifol dros ben dros ddefnyddio cerbyd heb drwydded ac nid oeddent yn cymeradwyo defnydd o'r fath o gwbl. Fodd bynnag, gan ystyried y dystiolaeth a'r camau lliniaru a ddarparwyd, gan gynnwys amgylchiadau penodol yr achos hwn ac ymdrechion a wnaed i gyflawni'r contract, ystyriodd yr aelodau bod y Gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Serch hynny, teimlai'r pwyllgor y dylai'r Gyrrwr fod wedi cymryd camau pellach i wneud trefniadau eraill i ddatrys y sefyllfa ac o ystyried difrifoldeb y drosedd, roedd yn briodol rhoi rhybudd llym o ran ymddygiad yn y dyfodol ac y dylid atgoffa'r Gyrrwr bod y pwyntiau cosb yn aros yn ddilys am ddwy flynedd. Roedd y pwyllgor hefyd yn awyddus i'r Gyrrwr fod yn ymwybodol o'r camau amgen i'w cymryd mewn sefyllfa o'r fath, heb yr angen i droi at ddefnyddio cerbyd heb ei drwyddedu.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

## 11 ADOLYGIAD ARFAETHEDIG O'R DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Datganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Er mwyn

cydymffurfio â'r amserlenni statudol, rhaid i'r Polisi diwygiedig fod yn effeithiol o Ionawr 2016.

Fe wnaeth y Datganiad Polisi Trwyddedu sefydlu fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd neu amrywiadau perthnasol i delerau ac amodau presennol. Hysbyswyd yr aelodau o ddull cydweithredol gan awdurdodau Gogledd Cymru wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad Polisi, ynghyd â diwygiadau arfaethedig gan ystyried newidiadau deddfwriaethol. Roedd disgwyl y byddai'r drafft terfynol yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn Hydref / Tachwedd 2015.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bill Cowie at baragraff 3.2.1 a gofynnodd a ddylai Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro hefyd fod yn ddarostyngedig i amodau i adlewyrchu unrhyw strategaethau neu fentrau atal troseddau lleol. Cytunodd y swyddogion i ymgynghori â chydweithwyr yn hynny o beth a diwygio yn ôl yr angen. Nododd yr aelodau ddiwygiad i'r argymhelliad i adlewyrchu'r ffaith yn well y gellir newid y polisi drafft o ganlyniad i'r dull cydweithredol parhaus. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Datganiad drafft o'r Polisi Trwyddedu yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bod pŵer yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gytuno ar unrhyw newidiadau sy'n codi o'r prosiect cydweithredu cyn ymgynghori.*

## 12 ADOLYGIAD O BOLISI A GWEITHDREFN BRESENNOL PWYNTIAU COSB

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth o'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Roedd y ddogfen yn manylu ynghylch sut yr ymdriniodd y Cyngor â mân achosion o dorri rheolau mewn perthynas â thrwyddedu tacsis.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu wedi cymeradwyo'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb ym mis Medi 2014, a gofynnwyd am adroddiad cynnydd blynyddol ar ei weithrediad. Roedd dadansoddiad o'r pwyntiau a ddyfarnwyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a thynnwyd sylw'r aelodau at nifer o faterion a godwyd ers cyflwyno'r cynllun, gan gynnwys lefel y pwyntiau a ddyfarnwyd am dorri rheolau penodol. O ganlyniad, roedd diwygiadau i'r cynllun wedi'u cynnig a oedd angen ymgynghoriad ffurfiol. Tynnwyd sylw arbennig at y cynnig ar gyfer ymdrin â rheolau a dorrir sy'n arwain at ddyfarniad sengl o 20 pwynt cosb a oedd ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i bwyllgor. Er mwyn ymdrin â materion mewn modd amserol, cynigiwyd bod yr achosion hynny'n cael eu hystyried gan naill ai'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd neu Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r ddogfen a nodwyd y cynnydd arfaethedig yn y pwyntiau cosb am dorri rheolau penodol a hefyd cynigiwyd y diwygiadau a ganlyn -

- oherwydd y cynnydd mewn diffygion diogelwch cerbydau a adroddwyd i'r pwyllgor ac o ystyried yr angen i godi safonau cerbydau a sicrhau diogelwch y

cyhoedd, teimlai'r aelodau y dylai cynnydd i 10 pwynt cosb gael ei gymhwyso i droseddau sy'n ymwneud â cherbydau diffygiol lle'r oedd mater diogelwch brys. Roedd y dyfarniad hwn yn berthnasol i bwyntiau 1a), 1b), 1c), 1d), 1e) ac 1m) o fewn y raddfa pwyntiau cosb (tudalen 25 o'r adroddiad), a

- ystyriodd yr aelodau bod gyrrwr trwyddedig cerbyd trwyddedig â dyletswydd gofal am y cerbyd waeth p'un a oeddent yn berchen ar y cerbyd neu beidio - o ganlyniad, cytunwyd y gallai'r gyrrwr, perchennog a / neu weithredwr y cerbyd trwyddedig fod yn atebol am reolau a dorrir, yn dibynnu ar amgylchiadau'r drosedd, y dylid eu hadlewyrchu o fewn y ddogfennaeth.

Yn sgil y diwygiadau uchod i'r polisi drafft, cytunwyd y dylid dwyn y drafft terfynol yn ôl gerbron y pwyllgor i'w gadarnhau yn ffurfiol, waeth bynnag a fyddai unrhyw sylwadau perthnasol mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a)* *bod y wybodaeth a ddarperir am y dadansoddiad o'r pwyntiau a gyhoeddwyd fel y manylwyd yn yr adroddiad yn cael ei chydnabod.*

*(b)* *yn amodol ar y newidiadau uchod bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac*

*(c)* *yn dilyn ymgynghoriad, bod adroddiad ar y drafft terfynol o'r Polisi a'r Weithdrefn Pwyntiau Cosb, ynghyd ag unrhyw sylwadau perthnasol, yn cael eu cyflwyno gerbron y pwyllgor eto i'w cymeradwyo'n ffurfiol.*

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd eisoes) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2015/16.

Byddai eitem ar y cynllun i osod safonau gofynnol ar gyfer cerbydau trwyddedig, fel y trafodwyd yn gynharach ar y rhaglen, yn cael ei chynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer naill ai Rhagfyr neu Fawrth.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.